CARDIFF
CAERDYDD

County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088

15 Mawrth 2016

Ar 10 Mawrth 2016, cytunodd Cabinet Cyngor Caerdydd ar gynnig i gynyddu maint Ysgol Gynradd Parc Ninian o fod yn ysgol â dau ddosbarth derbyn i dri dosbarth derbyn gyda lleoedd meithrin ychwanegol rhan amser er mwyn gwasanaethu'r ystod oedran 3-11 ar ei safle presennol o fis Medi 2017.

Mae'r Cabinet wedi ystyried y cynnig gan nodi na ddaeth unrhyw wrthwynebiadau i law.

Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai'r cynnig yn:

- Cyflawni cyfatebiaeth well o ran y galw a'r cyflenwad am leoedd ysgol gynradd Saesneg yn yr ardal leol.
- Cyfle i fuddsoddi mewn cynnig cyfleusterau cyfoes o safon uchel a fyddai'n helpu i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys
- Byddai'r cynnig yn arwain at lai o bellter teithio rhwng yr ysgol a'r cartref i rai disgyblion.

Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol i Weinidogion Cymru

Dan adran 54 Deddf 2013, lle mae cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol gall y cyrff canlynol o fewn 28 diwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried;

i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
ii. Y corff crefyddol priodol;
iii. Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu sylfaen;
iv. Eiddo ymddiriedolaeth ar ran ysgol wirfoddol neu sylfaen;
v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynnig yn effeithio arno.

Mae'r penderfyniad yn destun gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu'r penderfyniadau a wneir gan y Cabinet. Pe bai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol arnoch cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth drwy ffonio 029 2087 2917 neu e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk.

Yn gywir

Janine Nightingale
Pennaeth Trefniadaeth Ysgolion, Mynediad a Chynllunio

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

www.cardiff.gov.uk www.caerdydd.gov.uk